**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Lesley Griffiths AC,
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a
Materion Gwledig,
Llywodraeth Cymru

11 Hydref 2017

**Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**

Annwyl Lesley

Diolch am eich ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Ar ôl ystyried eich ymateb, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad llawnach o'ch ymateb i'r materion a ganlyn:

**Argymhelliad 6**: Wrth dderbyn yr argymhelliad hwn, rydych yn nodi y bydd Strategaeth Genedlaethol 2018 yn cynnwys safbwynt polisi ar sut y bydd Awdurdodau Rheoli Risg yn ystyried Cynlluniau Rheoli Traethliniau ac yn eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae ein hargymhelliad yn galw am sefyllfa polisi sy'n nodi amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer adlinio a reolir, ac nid yw'ch ymateb i'w weld yn cydnabod hyn yn benodol. Felly, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch eich bwriad ynghylch y sefyllfa polisi ar gyfer adlinio a reolir.

**Argymhelliad 9**: Yn eich ymateb i'r argymhelliad yn gofyn i chi amlinellu cynllun tymor canolig / hir ar gyfer ariannu prosiectau, rydych yn cyfeirio at adolygiad i'w gynnal hanner ffordd drwy'r rhaglen, ac a gaiff ei gwblhau ym mis Mawrth 2020, o hynt y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol (CRMP) fel system ariannu a'r gofyniad i ariannu gwaith arfordirol yn y tymor canolig a'r tymor hir. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am yr hyn y bydd yr adolygiad hwn yn ei gynnwys ac yn gobeithio'i gyflawni.

Yn gywir



**Nick Ramsay AC, Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565